Dewch o hyd i'ch ffordd nôl i'r gwaith drwy wella eich sgiliau

canolfanbydgwaith

Help go iawn i geiswyr gwaith nawr

Llywodraeth EM

Gallai gwella eich sgiliau newid eich dyfodol

Gall dod o hyd i swydd fod yn her, ond gall cael y sgiliau cywir wneud gwahaniaeth mawr. Does dim gwahaniaeth pa mor hir rydych wedi bod allan o waith, gall hyfforddiant eich helpu i wella eich sgiliau, ennill cymwysterau newydd, magu eich hyder a denu sylw eich cyflogwyr. Mae pobl sydd â sgiliau a chymwysterau yn llawer mwy tebygol o fod yn gweithio ac yn ennill mwy o arian na'r rhai sydd hebddynt.

A bellach, mae mwy o gymorth nag erioed i sicrhau y cewch yr hyfforddiant cywir ar gyfer eich dyfodol.



Ble gallaf fynd i gael help?

ReAct

Gall y rhaglen hon eich hyfforddi mewn sgiliau newydd os ydych wedi colli eich swydd. Cefnogir ReAct gan arian Ewropeaidd a chaiff ei redeg mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- costau hyfforddiant i gwmpasu sgiliau newydd (uchafswm o £2,500) er mwyn helpu i wella eich cyfleoedd o ddychwelyd i'r gwaith
- cymhorthdal o £2,080, a delir mewn pedwar rhandaliad dros 12 mis, i gyflogwr os byddant yn cyflogi gweithiwr sydd wedi colli ei swydd
- ad-daliad o hyd at 70% o gost hyfforddiant cymwys (hyd at uchafswm o £1,000) sydd ei angen arnoch i wneud eich swydd newydd, a
- grant i helpu gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer hunangyflogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am ReAct, ffoniwch **0800 100 900** neu, os ydych yn ffonio o ffôn symudol, **02920 906801**. Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am a hanner dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Neu gallwch anfon neges e-bost at **ReAct.Team@Wales.gsi.gov.uk**.

Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru yn rhoi help a chyngor ymarferol ar yrfaoedd a dysgu. P'un a ydych yn chwilio am waith neu newid mewn gyrfa, gall eich helpu i ddechrau arni.

Cysylltwch â Gyrfa Cymru i gael gwybod pa wasanaethau sydd ar gael i'ch helpu i asesu eich sgiliau, cael rhagor o wybodaeth am swyddi a dysgu, a'ch helpu i baratoi ar gyfer gwaith. Ewch i **www.gyrfacymru.com** neu ffoniwch **0800 100 900** (Cymraeg a Saesneg). Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am a hanner dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Mae'r gwasanaeth yn hollol gyfrinachol.

Y Ganolfan Byd Gwaith

Gall eich ymgynghorydd yn y Ganolfan Byd Gwaith roi'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen arnoch i asesu a gwella eich sgiliau, a gall hefyd ddarparu gwybodaeth am swyddi gwag presennol. Gallant drefnu cymorth ychwanegol er mwyn eich galluogi i ystyried eich sgiliau, cael unrhyw hyfforddiant pellach y gallai fod ei angen arnoch, a chynllunio eich dyfodol.
Er enghraifft:

- cael gafael ar gymorth i ddeall pa sgiliau sydd gennych a'r rhai hynny sydd angen i chi eu datblygu, a sut mae'r rhain yn cysylltu â swyddi yn eich ardal leol
- gwybodaeth am amrywiaeth eang o gyrsiau gan gynnwys rhai academaidd, proffesiynol, penodol i swydd a galwedigaethol
- cael gafael ar gyrsiau er mwyn helpu i wella sgiliau sylfaenol, gan gynnwys Saesneg, llythrennedd a rhifedd

- cyngor ar ddysgu ar-lein ac astudio hyblyg ar amser ac mewn lle sy'n addas i chi, gan eich helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn rhan o'ch bywyd, a
- helpu i gael hyfforddiant llawn amser neu ran amser priodol yn seiliedig ar eich anghenion.

Os ydych am gael gwybod am swyddi sydd ar gael ar hyn o bryd, gallwch hefyd ffonio **0845 6067 890** (ffôn testun **0845 6044 022**). Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

Directgov

Mae gan wefan Directgov hefyd amrywiaeth eang o wybodaeth am wella eich sgiliau, gan gynnwys straeon fideo gan bobl sydd wedi gwneud i'w sgiliau weithio iddynt. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.direct.gov.uk/cy**, yna dewiswch:

- **'Cyflogaeth'**, yna
- **'Ceiswyr Gwaith'**, yna
- **'Cynllunio gyrfa'**, yna
- **'Dechrau arni mewn gyrfa rydych am ei chael: pobl go iawn, straeon go iawn'**.

A fydd hyfforddiant o werth?

Mae'r holl gymorth o ran hyfforddiant wedi'i sefydlu i ddiwallu eich anghenion a rhoi'r sgiliau mae cyflogwyr am eu cael i chi. Bydd unrhyw beth y gallwch ei wneud i wella eich sgiliau yn eich helpu gyda'r canlynol:

- cynyddu eich hyder
- denu sylw cyflogwyr, a
- dod o hyd i waith a datblygu ynddo.

Gallai sgil neu gymhwyster newydd hefyd helpu i gynyddu eich cyflog, gan ddibynnu ar y cwrs neu lefel y cymhwyster a gewch.

A fydd yn rhaid i mi dalu unrhyw beth?

Mae llawer o gyrsiau hyfforddiant a argymhellir gennym am ddim. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, gallech hefyd gael help gyda chostau teithio, gofal plant a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio.

Blaengynllunio

Pan fyddwch wedi dod o hyd i swydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich sgiliau'n gyfredol.

Siaradwch â'ch cyflogwr i weld pa hyfforddiant y gallant ei roi i chi. Gallwch hefyd gysylltu â **Gyrfa Cymru** i weld pa hyfforddiant y gallant ei awgrymu er mwyn eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa.

Daliwch ati i ddysgu. Drwy gael mwy o sgiliau, bydd dyfodol gwell o'ch blaen.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymrwymedig i gymhwyso egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir o fis Mai 2009. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn anghywir dros amser, e.e. oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

canolfanbydgwaith

Cost galwadau. O fis Awst 2009, ni ddylai galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud ac 8c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau. Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Rhif Cyf. MKT22002W
f1.0 (Awst 2009)
ISBN: 978-84947-029-2